DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Practis Deintyddol Hayden

17 Chwefror 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-3578-0
© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2
2. Methodoleg ........ 2
3. Cyd-destun ........ 4
4. Crynodeb ........ 5
5. Canfyddiadau ........ 6

   Profiad y Claf ........ 6

   Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru ........ 9

   Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 15

   Ansawdd yr Amgylchedd ........ 18

6. Y Camau Nesaf ........ 20

   Atodiad A ........ 21

## 1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Hayden yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 17 Chwefror 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda y mae practisau'n bodloni'r safonau yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru[1].

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis

[1] Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru. www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438

- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg ar y modd y gweithredir safonau yn y practis a ymwelwyd ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Hayden yn darparu gwasanaeth i gleifion y GIG a chleifion preifat yn ardal Caerfyrddin. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, chwe nyrs ddeintyddol (gan gynnwys dwy dan hyfforddiant), un hylenydd ac un rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Gwasanaethau deintyddol cyffredinol ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat
- Gwynnu dannedd
- Mewnblaniadau deintyddol
- Gwasanaethau hylenydd preifat.

Gan fod Practis Deintyddol Hayden yn bractis cymysg sy’n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a GIG, bydd unrhyw ddeintydd sy’n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau (Diwygio) 2011.

## 4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar sut mae Practis Deintyddol Hayden yn bodloni'r safonau gofal yn y ddogfen Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.

Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol. Roedd cleifion yn gallu siarad â staff a chael apwyntiadau yn Gymraeg. Gwnaethom argymell bod y practis yn datblygu system gadarn ar gyfer cael adborth gan gleifion.

Gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a’u darparu'n ddiogel i gleifion. Er bod y practis wedi cymryd camau i wella'r prosesau dadheintio ar gyfer glanhau offer ac er bod lle yn gyfyngedig, gwnaethom argymell y gellid gwneud rhai gwelliannau ychwanegol yn y maes hwn. Ar y cyfan, gwelsom fod cadw cofnodion cleifion o safon dda yn y practis. Fodd bynnag, gwnaethom rai argymhellion ynghylch cofnodi hanes cymdeithasol, sgrinio canser y geg a nodiadau mewn perthynas â radiograffau.

Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn ddiogel, gyda systemau ar waith i sicrhau diogelwch cleifion. Dywedodd staff a chleifion wrthym am y gwelliannau oedd wedi cael eu gwneud i'r practis, fel ail addurno a phrosesau newydd, ers i'r perchnogion newydd gyrraedd.

Gwelsom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth. Gwnaethom nodi bod lle yn gyfyngedig iawn yn y practis oherwydd cynllun yr adeilad. Nid oedd mynediad i’r practis yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol. Roedd cleifion yn gallu siarad â staff a chael apwyntiadau yn Gymraeg.Gwnaethom argymell bod y practis yn datblygu system gadarn ar gyfer cael adborth gan gleifion.**

Cwblhawyd 26 o holiaduron cleifion cyn dyddiad yr arolygiad. Gwnaethom hefyd siarad â dau glaf ar ddiwrnod yr arolygiad. Dywedodd mwyafrif y cleifion eu bod yn fodlon ar y gofal roeddent yn ei dderbyn yn y practis, yn cael croeso gan staff ac nad oeddent yn profi unrhyw oedi o ran cael eu gweld gan y deintydd. Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd sampl o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Bodlon iawn."*
>
> *"Popeth yn dda iawn."*
>
> *“Practis deintyddol croesawgar iawn, pob aelod o staff yn gyfeillgar. Pan fydd gen i driniaeth ddeintyddol, maen nhw bob amser yn gwneud i mi deimlo'n dawel fy meddwl".*
>
> *“Ansawdd da o ran gwasanaeth a staff cyfeillgar a chymwynasgar.”*
>
> *"Gwasanaeth o'r radd flaenaf, proffesiynol a chyfeillgar bob tro."*
>
> *"Ers i'r perchnogion newydd ddod i'r practis...mae'r practis wedi gwella..."*

Yn gyffredinol, dywedodd y cleifion eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol 'tu allan i oriau'. Gwelsom arwydd yn ffenestr y practis yn dangos y rhif cyswllt mewn argyfwng, a chadarnhawyd y darperir rhif cyswllt ar neges peiriant ateb y practis. Roedd system apwyntiad hyblyg ar waith a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng, gan alluogi cleifion i gael eu gweld yn gyflym os oedd angen. Roedd y practis hefyd yn defnyddio system neges destun i atgoffa cleifion am eu hapwyntiadau. Dywedodd sawl claf eu bod o’r farn bod y system hon yn ddefnyddiol iawn.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Dywedodd y staff wrthym fod opsiynau triniaeth yn cael eu trafod gyda'r cleifion, a gwelsom dystiolaeth o hyn wedi ei chofnodi yn nodiadau'r cleifion. Dywedwyd wrthym fod cynllun triniaeth yn cael ei ddarparu ar gyfer pob claf. Gwelsom hefyd dystiolaeth o wybodaeth ysgrifenedig fanwl am fewnblaniadau deintyddol oedd wedi cael eu darparu i'r cleifion. Roedd cleifion yn derbyn gwybodaeth ysgrifenedig am ofal yn dilyn triniaeth i dynnu dannedd, ond gwnaethom gynghori'r practis i ystyried darparu gwybodaeth am y peryglon o dynnu dannedd cyn y driniaeth hefyd er mwyn helpu i addysgu cleifion.

Dywedodd staff wrthym fod gwybodaeth am y practis wrthi'n cael ei diweddaru a byddai ar gael i gleifion yn Gymraeg a Saesneg. Dywedodd staff wrthym fod gwybodaeth fel ffurflenni hanes meddygol ar gael mewn ffont mwy os oedd angen. Dywedodd y practis wrthym fod llawer o'r cleifion yn siarad Cymraeg a bod yn well gan rai gyfathrebu yn Gymraeg gyda staff. Roedd mwyafrif y staff yn y practis yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n meddu ar lefel sylfaenol o Gymraeg. Cymraeg oedd iaith gyntaf un o'r deintyddion ac roedd yn cynnal apwyntiadau yn Gymraeg gyda'r cleifion hynny oedd yn dymuno gwneud hynny. Ar ddiwrnod yr arolygiad, clywsom staff yn siarad Cymraeg â chleifion. Mae hyn yn golygu bod cleifion yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith.

Roedd gan y practis wefan oedd yn eglur, yn hawdd ei defnyddio ac yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion. Ar y cyfan, roedd y wefan yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol[2] ar hysbysebu. Fodd bynnag, fe wnaethom argymhelliad ynghylch y weithdrefn gwyno, sy'n gysylltiedig â'r wefan, yn adran Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yr adroddiad hwn (tudalen 16).

Roedd y practis yn darparu gwybodaeth hyrwyddo iechyd ar dudalen Facebook y practis, gan gynnwys gwybodaeth am edrych ar ôl dannedd plant. Fodd bynnag, efallai nad yw'r wybodaeth hon yn hygyrch iawn i bob claf yn y practis oherwydd gwelsom nad oedd fawr ddim gwybodaeth hyrwyddo iechyd yn ystafell aros y cleifion / y dderbynfa. Gwnaethom gynghori'r practis i ddarparu gwybodaeth hyrwyddo iechyd yn y practis, yn ogystal ag ar Facebook. Cytunodd y practis i ystyried hyn a dywedwyd wrthym fod y practis yn bwriadu gosod teledu yn yr ystafell aros y gellid ei ddefnyddio i arddangos gwybodaeth hyrwyddo iechyd.

[2] Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yw'r sefydliad sy'n rheoleiddio deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis ystyried rhoi mwy o wybodaeth hyrwyddo iechyd i gleifion, gan gynnwys rhoi'r gorau i ysmygu ac ymwybyddiaeth o/rhwystro canser y geg.***

Roedd gan y practis flwch awgrymiadau i gael barn y cleifion, ond dywedodd y staff wrthym nad oeddent yn derbyn llawer o adborth yn y ffordd hon. Gwnaethom gynghori'r practis i ystyried ffyrdd amgen o gael adborth gan gleifion, fel cynnal arolygon cleifion rheolaidd.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis ddatblygu ffordd gadarn o geisio barn ac adborth gan gleifion er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd.***

Pan ofynnwyd iddynt am gwynion, dywedodd 20 o gleifion wrthym nad oeddent yn siŵr sut i leisio cwyn.  Fodd bynnag, dywedodd nifer o gleifion hefyd nad oeddent yn teimlo unrhyw angen i gwyno. Gwelsom hefyd fod poster cwynion yn cael ei arddangos yn amlwg yn yr ystafell aros a bod dolen at y polisi cwynion hefyd ar gael ar wefan y practis.

## *Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*

**Gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u darparu'n ddiogel i gleifion. Er bod y practis wedi cymryd camau i wella'r prosesau dadheintio ar gyfer glanhau offer ac er bod lle yn gyfyngedig, gwnaethom argymell y gellid gwneud rhai gwelliannau ychwanegol yn y maes hwn.**

**Ar y cyfan, gwelsom fod y dulliau o gadw cofnodion cleifion o safon uchel yn y practis.Fodd bynnag, gwnaethom rai argymhellion ynghylch cofnodi hanes cymdeithasol, sgrinio canser y geg a nodiadau mewn perthynas â radiograffau.**

### Cyfleusterau Clinigol

Edrychwyd ar y cyfleusterau clinigol ym mhob deintyddfa, a gwelsom eu bod yn cynnwys offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a staff. Roedd y ddwy ddeintyddfa yn lân ar y cyfan ond roedd angen eu moderneiddio gan fod yr unedau/cypyrddau a'r lloriau yn y deintyddfeydd wedi treulio, gan ei gwneud yn anodd glanhau yn effeithiol. Gwnaethom sylwi fod rhai o'r dreir yn y deintyddfeydd yn llychlyd ac angen eu glanhau. Gwelsom hefyd fod rhywfaint o annibendod ar yr arwynebau gwaith, oedd yn golygu nad oedd yn hawdd eu glanhau.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod cyn lleied â phosib o annibendod ar arwynebau ardaloedd triniaeth er mwyn helpu dadheintio'n effeithiol.***

***Dylai'r practis sicrhau bod ardaloedd storio, yn arbennig y tu mewn i ddreir/cypyrddau mewn deintyddfeydd, yn cael eu glanhau'n rheolaidd.***

Gwelsom fod offer yn cael ei storio'n briodol i osgoi heintiad a bod system addas ar waith i sicrhau nad oedd yr offer yn cael ei gadw y tu hwnt i'r cyfnod cymeradwy ar gyfer ei storio.

Gwelsom nad oedd offer trydanol bach, sy'n cael ei adnabod fel prawf dyfeisiadau cludadwy, wedi cael eu profi yn y practis yn y flwyddyn ddiwethaf. Dylai'r prawf hwn gael ei gynnal yn rheolaidd i sicrhau bod yr holl ddyfeisiadau trydanol yn y practis yn addas i bwrpas ac yn ddiogel i'w ddefnyddio. Er nad

yw'r rheoliadau perthnasol[3] yn nodi pa mor aml y dylid profi dyfeisiadau cludadwy, mae'n arfer da cydnabyddedig eu bod yn cael eu cynnal yn flynyddol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod dyfeisiadau cludadwy'n cael eu profi'n rheolaidd.***

**Dadheintio offer**

Roedd y practis yn defnyddio ystafell ddadheintio fach ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol ac roedd prosesau addas ar waith i amddiffyn cleifion rhag croes-heintio. Roedd sinciau golchi dwylo penodol ac eitemau tafladwy ar gael i helpu gyda rheoli heintiau.

Er i'r perchnogion newydd wneud gwelliannau i adnoddau dadheintio yn y practis, roeddent yn cydnabod nad oedd yr ystafell ddadheintio'n ddelfrydol gan ei bod yn fach iawn (dim ond yn addas i un person ar y tro) ac nad oedd lle ar gyfer sinciau ar wahân i lanhau offer. Oherwydd hyn, roedd offer budr yn cael ei lanhau yn sinciau'r ystafell driniaeth. Gwnaethom sylwi bod y sinciau hyn yn fâs, sy'n golygu y gallai dŵr budr dasgu oddi ar yr offer ar yr arwynebau o amgylch a byddai angen glanhau'r rhain yn ofalus i amddiffyn cleifion rhag croes heintio.

Roedd y practis wedi gosod ffan echdynnu yn yr ystafell ddadheintio, ond roedd yr awyru yn yr ystafell yn dal yn wael oherwydd y diffyg lle a diffyg llif aer naturiol. Dywedodd y practis wrthym eu bod yn ymwybodol o'r broblem hon ond eu bod yn teimlo nad oeddent yn gallu gwneud unrhyw beth pellach i wella hyn nes i'r practis gael ei ailwampio. Dywedodd rheolwr y practis wrthym eu bod yn bwriadu ail gynllunio ac ailwampio'r adeilad yn y dyfodol agos gan fod angen ei foderneiddio. Fel rhan o'r cynlluniau hyn, dywedwyd wrthym y byddai'n cynnwys ystafell ddadheintio wedi ei dylunio'n arbennig ac y byddai hynny'n datrys y broblem bresennol gydag awyru a diffyg lle.

Gwnaethom sylwi bod un o ddrysau'r ystafell ddadheintio'n agor yn union i ardal y dderbynfa/man aros, nesaf at lle'r oedd y derbynwyr yn eistedd. Oherwydd cynllun yr adeilad, roedd staff yn gorfod cerdded trwy'r ystafell ddadheintio er mwyn mynd at y dderbynfa. Oherwydd y diffyg lle, dywedodd staff wrthym nad

---

[3]Mae Rheoliadau Trydan yn y Gwaith 1989 yn ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw offer trydanol sydd â'r potensial i achosi anaf yn cael ei gynnal mewn cyflwr diogel.

oedd y drws i'r dderbynfa'n cael ei gau bob amser wrth ddadheintio. Mae hyn yn golygu y gallai'r staff a chleifion yn y dderbynfa/man aros fod mewn perygl posib o aerosolau o'r broses ddadheintio. Er mwyn lleihau'r perygl o groes heintio, dylid cadw'r drws hwn ar gau wrth lanhau offer.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid adolygu'r amgylchedd dadheintio'n rheolaidd er mwyn lleihau'r posibilrwydd bod aerosolau sy'n codi o'r broses lanhau yn gallu cyrraedd cleifion neu staff heb eu hamddiffyn.***

Oherwydd y diffyg lle yn y practis, roedd yr ystafell ddadheintio hefyd yn cael ei defnyddio ar gyfer storio ac fel ardal ar gyfer adnoddau gwneud te a choffi i staff. Gwelsom nad oedd eitemau o stoc, deunyddiau ac offer gwneud diodydd wedi cael eu gorchuddio a'u bod yn cael eu cadw ar silffoedd agored. Mae hyn yn golygu y byddai'n anodd glanhau arwynebau yn yr ystafell ddadheintio yn effeithiol. Mae perygl posib hefyd o groes heintio trwy gadw adnoddau gwneud diodydd heb eu gorchuddio yn yr ardal hon.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau y gellir glanhau'r arwynebau yn yr ystafell ddadheintio yn hawdd ac yn effeithiol.***

Roedd y practis yn defnyddio cofnodwyr data electronig ar gyfer yr offer dadheintio, a dywedodd y staff wrthym fod copïau wrth gefn yn cael eu creu ar y system gyfrifiadurol yn rheolaidd. Gwelsom nad oedd cofnodion ar gyfer yr archwiliadau safonol a ymgymerir gan staff nyrsio deintyddol ar ddechrau a diwedd pob dydd. Oherwydd nifer y staff nyrsio a gyflogir yn y practis, gwnaethom gynghori'r practis i ystyried system fel bod yr aelod staff unigol sy’n ymgymryd â’r archwiliadau hyn yn llofnodi i gadarnhau bod yr archwiliadau wedi eu cwblhau.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai’r practis ystyried cofnodi’r archwiliadau a wna’r staff nyrsio ar ddechrau a diwedd pob dydd i sicrhau bod yr archwiliadau wedi eu cwblhau.***

Dywedodd staff wrthym eu bod wedi cynnal hyfforddiant mewn rheoli heintiau a dadheintio, ond nid oedd tystysgrifau ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad. Gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau diweddar ac wedi defnyddio'r offer archwilio a ddatblygwyd gan Brifysgol Caerdydd, fel sy'n cael ei argymell gan ganllawiau WHTM 01-05. Fodd bynnag, nid oedd y practis wedi datblygu cynllun i ddatrys y problemau a amlygwyd yn yr archwiliad ar

gyfer symud at arfer gorau. Dylai'r cynllun gwella hwn hefyd fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod mewn perthynas â'r ystafell ddadheintio.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis ddatblygu cynllun gwella i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a amlygir yn yr archwiliadau rheoli heintiau.***

**Gwaredu gwastraff**

Ar y cyfan, roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu'n briodol yn y practis. Fodd bynnag, dywedodd staff wrthym fod modelau deintyddol yn cael eu rhoi i gleifion ac nad oeddent yn cael eu gwaredu mewn cynhwysydd gwastraff priodol yn y practis. Trwy roi modelau i gleifion, mae perygl y gallant gael eu gwaredu mewn gwastraff cartref domestig, yn hytrach na thrwy'r dull gwaredu priodol. Os yw cleifion yn benodol am gadw modelau deintyddol, dylid rhoi canllawiau iddynt ynghylch sut y gellir eu gwaredu'n briodol, os nad ydynt eu heisiau mwyach. Dylai'r practis drefnu i waredu modelau deintyddol trwy'r contractwr gwastraff.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod modelau deintyddol yn cael eu gwaredu mewn cynhwysydd priodol .***

Dywedodd y practis wrthym fod gwastraff glanweithiol (gwastraff ffiaidd/glanwaith) o'r toiled yn cael ei waredu gyda'r gwastraff clinigol meddal. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r practis i ymgynghori â'r contractwr gwastraff gan fod canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd (WHTM) 07-01[4] yn dynodi y dylid gwaredu'r math hwn o wastraff ar wahân.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod gwastraff yn cael ei wahanu a'i waredu'n briodol, gan gynnwys gwastraff ffiaidd/glanwaith o'r toiled.***

---

[4]Set o ganllawiau yw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru ynghylch rheoli gwastraff gofal iechyd yn ddiogel, gan gynnwys o bractisau deintyddol.

## Offer radiograffig

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd dogfennau perthnasol, gan gynnwys archwiliadau diogelwch, cynnal a chadw, a phrofi ar gael. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod archwiliadau sicrhau ansawdd ar gyfer Pelydrau-X wedi'u cynnal er mwyn sicrhau ansawdd y ddelwedd.Dywedodd staff wrthym eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio angenrheidiol. Fodd bynnag, nid oedd tystysgrifau ar gael ar gyfer y staff ar ddiwrnod yr arolygiad. Cadarnhaodd y prif ddeintydd nad oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant eto (oedd i fod i gael ei gwblhau yn 2015) a'i fod wedi trefnu lle ar y cwrs yn y dyfodol agos.

Nid oedd llythyr o hysbysiad i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ynghylch yr offer pelydr-X a ddefnyddir yn y practis ar gael, ond cadarnhaodd rheolwr y practis eu bod wedi cysylltu â nhw'n ddiweddar ynghylch darn newydd o offer pelydr-X. Gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod cadarnhad ysgrifenedig o'r hysbysiad hwn ar gael.

## Cadw cyffuriau ac offer ar gyfer argyfwng

Roedd offer dadebru a meddyginiaeth briodol ar gael i staff pe byddai argyfwng gyda chlaf (cwympiad) yn y practis. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis Midazolam, sy'n gyffur argyfwng ar gyfer ffitiau epileptig. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod y cyffur hwn wedi cael ei archebu ar ddiwrnod yr arolygiad. Gwelsom fod meddyginiaethau brys yn cael eu cadw'n briodol yn y practis ac roedd llyfr cofnodion ar gyfer archwilio dyddiad dod i ben cyffuriau. Roedd llyfrau meddyginiaeth a phresgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel yn y practis.

Gwelsom dystiolaeth fod y staff wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol. Fodd bynnag, nid oedd y dystysgrif ar gyfer un aelod o staff ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod yr hyfforddiant wedi cael ei gynnal i'r holl staff oedd yn gweithio yn y practis ar yr un pryd. Cadarnhaodd y prif ddeintydd fod gweithiwr cymorth cyntaf penodol yn y practis, ond nad oedd tystysgrif ar gael. Roedd gan y practis bolisi argyfyngau ac roedd gweithdrefn ar gyfer ataliad ar y galon yn cael ei harddangos yn y deintyddfeydd. Fodd bynnag, nid oedd y polisi'n cynnwys manylion y gweithdrefnau i'w dilyn mewn argyfyngau meddygol eraill fel ffitiau epileptig, tagu a chymhlethdodau'n ymwneud â diabetes. Gwnaethom awgrymu bod y practis yn defnyddio siartiau llif ar argyfyngau meddygol eraill er mwyn i staff gyfeirio atynt mewn argyfwng.

## Cofnodion cleifion

Edrychwyd yn fanwl ar gyfanswm o 11 o gofnodion cleifion, gyda samplau yn cael eu cymryd gan bob deintydd. Ar y cyfan, roedd cofnodion cleifion yn y

practis o safon dda a gwelsom fod system dda ar gyfer casglu gwiriadau hanes meddygol.

Nodwyd yr arsylwadau canlynol a'r gwelliannau sydd angen eu gwneud i gofnodion cleifion yn y practis:

- Prin oedd y manylion am hanes cymdeithasol (ysmygu a defnydd o alcohol)
- Nid oedd sgrinio canser y geg yn cael ei gofnodi yn y nodiadau a welsom
- Nid oedd cyfiawnhad dros gymryd pelydr-X a'r canfyddiadau clinigol (yr hyn mae'r pelydr-X yn ei ddangos) yn cael eu cofnodi bob amser
- Nid oedd ansawdd y ddelwedd pelydr-X yn cael ei gofnodi yn nodiadau cleifion

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid gwneud gwelliannau i'r broses o gadw cofnodion cleifion, yn enwedig o ran hanes cymdeithasol, sgrinio ar gyfer canser y geg, a nodiadau yn ymwneud â radiograffau.***

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

***Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn ddiogel, gyda systemau ar waith i sicrhau diogelwch cleifion. Dywedodd staff a chleifion wrthym am y gwelliannau oedd wedi cael eu gwneud i'r practis, fel yr ail addurno a'r prosesau newydd, ers i'r perchnogion newydd gyrraedd.***

Daeth y perchnogion presennol i'r practis ym mis Hydref 2013. Dywedodd staff wrthym fod y practis wedi cael ei ail addurno a bod systemau, polisïau a gweithdrefnau newydd wedi cael eu cyflwyno. Roedd y practis wedi buddsoddi mewn offer pelydr-X newydd ac offer dadheintio. Roedd nifer o aelodau o staff wedi bod yn gweithio yn y practis am nifer o flynyddoedd ac wedi gweithio dan berchennog blaenorol y practis. Dywedodd staff a chleifion wrthym eu bod wedi sylwi ar y newidiadau a wnaed gan y perchnogion newydd.

Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn a ddisgwylid ganddynt a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu swyddogaethau. Dywedodd staff wrthym hefyd y byddent yn hapus i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt â'r prif ddeintydd a rheolwr y practis.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (roedd dwy o'r nyrsys deintyddol o dan hyfforddiant) ac roedd ganddynt yswiriant indemniad. Roedd gan yr holl ddeintyddion a oedd yn darparu gwasanaethau preifat dystysgrif yn cadarnhau eu cofrestriad gydag AGIC, ac roedd y rhain wedi eu harddangos yn y deintyddfeydd.

Gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisïau, gweithdrefnau a thystysgrifau cynnal a chadw perthnasol ar waith. Roedd y polisïau a'r gwaith papur yn drefnus ac roedd dyddiadau ar bob polisi i ddangos eu bod yn gyfredol. Roedd dyddiadau adolygu ar y mwyafrif o'r polisïau, ond gwnaethom sylwi nad oedd dyddiadau ar rai. Gwnaethom gynghori'r practis i ddefnyddio system gyson ar gyfer dyddiadau ar gyfer pob polisi er mwyn i hyn fod yn eglur i'r staff. Dywedodd staff wrthym fod polisïau newydd wedi cael eu rhoi iddynt eu darllen a'u bod yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd tîm.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion hyfforddi staff a oedd yn cadarnhau bod staff wedi cwblhau'r cyfleoedd hyfforddi a oedd yn berthnasol i'w swyddi. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael eu cefnogi gyda hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelsom gadarnhad bod lle wedi ei drefnu i staff fynychu hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion ym mis Gorffennaf 2015.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod arfarniadau anffurfiol wedi cael eu cynnal gyda'r staff presennol pan ddaeth y perchnogion newydd i'r practis, ond

nid oedd cofnodion ar gael. Roedd staff newydd yn y practis yn dal ar eu cyfnod prawf ac nid oeddent wedi cael arfarniad eto.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid cynnal arfarniad blynyddol i bob aelod o staff sy'n gweithio yn y practis a dylai cofnodion fod ar gael fel rhan o ddatblygiad personol staff.***

Dywedwyd wrthym fod y deintyddion yn y practis yn cynnal adolygiadau gan gymheiriaid ac yn trafod materion clinigol gyda'i gilydd. Gwelsom dystiolaeth o'r archwiliadau diweddar a gynhaliwyd ar gofnodion cleifion a phelydrau-X. Mae hyn yn golygu bod y practis yn defnyddio goruchwyliaeth cymheiriaid i helpu i sicrhau ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir.

Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal bob dau i dri mis. Gwelsom nodiadau agenda o’r cyfarfodydd hyn, a oedd wedi eu cofnodi’n glir. Roedd amrywiaeth o bynciau'n cael eu trafod yn y cyfarfodydd hyn a dywedodd rheolwr y practis wrthym fod staff yn cael eu hannog i leisio pryderon a chanfod gwelliannau. Un o'r awgrymiadau ar gyfer gwella a wnaed gan y staff oedd creu templedi llythyr awtomatig ar y system electronig i leihau amser gweinyddol. Rhoddodd y practis hwn ar waith.

Gwelsom fod gan y staff clinigol gofnodion imiwnedd hepatitis B. Nid oedd y cofnodion ar gyfer y prif ddeintydd ac un o'r nyrsys ar gael ar adeg yr arolygiad. Dywedodd staff wrthym eu bod wedi derbyn brechiadau priodol.

Dywedodd y practis wrthym y byddai staff yn cael eu hanfon i'r adran damweiniau ac achosion brys lleol ar gyfer unrhyw anafiadau gan offer miniog, gan nad oedd y practis yn siŵr a oedd trefniadau iechyd galwedigaethol trwy'r bwrdd iechyd wedi cael eu ffurfioli. Gwnaethom gynghori'r practis i gysylltu â'r bwrdd iechyd i gadarnhau'r trefniadau hyn i staff.

Roedd gan y practis lyfr addas i gofnodi damweiniau a digwyddiadau. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi bod y cofnodion oedd wedi eu cwblhau hefyd yn cael eu cadw gyda'r llyfr damweiniau ac nid mewn ffeil ar wahân. O ganlyniad, nid yw unigolyn sydd am gofnodi damwain yn gallu mynd at fanylion personol cofnodion blaenorol. Mae hyn yn golygu nad oedd cyfrinachedd gwybodaeth staff a chleifion a gofnodwyd yn y llyfr damweiniau'n cael ei gwarchod.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod cofnodion damweiniau sydd wedi eu cwblhau yn cael eu symud a'u storio'n ddiogel i warchod cyfrinachedd gwybodaeth staff a chleifion.***

Roedd gan y practis system briodol ar gyfer cofnodi cwynion ysgrifenedig a llafar yn defnyddio system electronig. Serch hynny, awgrymwyd bod y practis yn defnyddio dalen grynhoi i gofnodi'r dyddiadau a'r camau a gymerwyd, y gellid ei hadolygu'n hawdd.

Gwelsom fod y practis wedi ymdrin ag un gŵyn anffurfiol trwy gyfrwng e-bost. Gwnaethom gynghori'r practis i fod yn ofalus wrth gyfathrebu â chleifion trwy e-bost a sicrhau bod unrhyw wybodaeth gyfrinachol yn cael ei hanfon yn ddiogel (h.y. wedi'i hamgryptio) yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Cawsom fod y broses gwyno yn gyffredinol yn cydymffurfio â'r trefniadau yng ngweithdrefn cwynion cleifion y GIG o'r enw 'Gweithio i Wella',[5] a rhoddodd restr o sefydliadau perthnasol i gleifion gysylltu â nhw os oedd ganddynt gŵyn. Fodd bynnag, roedd angen i'r polisi gynnwys manylion cyswllt AGIC ar gyfer cleifion preifat. Mae angen hyn dan y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat. Gwnaethom sylwi hefyd bod y polisi'n cyfeirio at yr Ombwdsmon Seneddol (perthnasol yn Lloegr yn unig) ac nid at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gleifion y GIG.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid diweddaru'r polisi gyda manylion cyswllt AGIC i gleifion preifat a dylai gynnwys cyfeiriad at yr ombwdsmon cywir - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gleifion y GIG.***

O ystyried nifer yr argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y practis ar gyfer monitro cydymffurfiad â rheoliadau a safonau perthnasol. Er na wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth, disgwylir y bydd tystiolaeth o welliant amlwg ynglŷn â hyn yn yr arolygiad nesaf.

---

[5] 'Gweithio i Wella' yw'r trefniadau sydd wedi'u sefydlu ar gyfer ymdrin â phryderon am ofal a thriniaeth a ddarperir gan y GIG yng Nghymru ac ymateb iddynt.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Gwelsom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth.Gwnaethom nodi bod lle yn gyfyngedig iawn yn y practis oherwydd cynllun yr adeilad.Nid oedd mynediad i'r practis yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.**

Mae'r practis ym mhrif ardal siopa Caerfyrddin ac yn agos at yr orsaf drenau. Mae'r practis ar y llawr cyntaf ac mae ganddo ddwy ddeintyddfa ac ardal aros/derbynfa. Mae llefydd parcio ar gael mewn meysydd parcio cyhoeddus ger y practis. Mae man aros y tu allan i'r practis ar gyfer parcio tymor byr cyfyngedig.

Ceir mynediad i'r practis i fyny grisiau cul o'r llawr daear. Nid oedd unrhyw fynediad amgen ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symud. Oherwydd oedran a chynllun yr adeilad, roedd y llawr yn y practis yn anwastad. Dywedodd y practis wrthym fod unrhyw gleifion newydd yn cael eu hysbysu am y mynediad cyfyngedig.

Roedd arwydd y tu allan i'r practis yn dangos enwau a chymwysterau'r ddau ddeintydd. Roedd arwydd y tu allan i'r practis hefyd yn nodi'r oriau agor a'r rhif cyswllt mewn argyfwng ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau. Mae rhestrau prisiau i gleifion GIG a phreifat wedi'u harddangos yn eglur yn y dderbynfa. Gwnaethom sylwi bod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus/y cyflogwr yn cael ei harddangos yn y dderbynfa ond nad oedd yn hawdd i gleifion ei darllen wrth sefyll yn y dderbynfa. Cytunodd y practis i symud y dystysgrif hon er mwyn i gleifion allu ei gweld yn hawdd. Roedd yr ardal aros o faint priodol i nifer y deintyddfeydd ac roedd yn lân ac yn daclus.

Cadarnhaodd taith o'r adeilad fod y practis yn cael ei redeg yn foddhaol a'i fod wedi cael ei ail addurno yn ddiweddar. Fodd bynnag, roedd lle yn gyfyngedig iawn oherwydd cynllun yr adeilad ac roedd angen ei foderneiddio. Oherwydd y diffyg lle, nid oedd adnoddau staff penodedig ar gael, fel ystafell staff i baratoi lluniaeth, storio eiddo ac ardal newid ddynodedig. Roedd y practis ar gau amser cinio er mwyn i'r staff allu defnyddio ardal aros y cleifion i orffwys yn ystod y cyfnod hwn. Roedd gan y practis doiled neillryw bach at ddefnydd staff/cleifion. Roedd hwn yn amlwg yn lân ac yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo i atal croes heintio, ond gwnaethom sylwi bod yr ystafell yn oer ac angen ei gwresogi. Roedd y practis wedi cael ei ail addurno'n ddiweddar a dywedwyd wrthym fod cynlluniau ar gyfer ailwampio pellach.

Ceir arwydd ar gyfer yr allanfa dân ac roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu harchwilio'n ddiweddar. Fodd bynnag, ni welsom gyfarwyddiadau ynghylch beth i'w wneud mewn achos o dân yn cael eu harddangos.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r practis arddangos cyfarwyddiadau ar gyfer y weithdrefn i'w dilyn pe bai tân.***

Ni wnaethom edrych yn fanwl ar bresenoldeb larymau tân, goleuadau argyfwng na systemau amddiffyn tân eraill yn ystod yr arolygiad hwn. Fodd bynnag, mae'r practis yn gyfrifol am sicrhau bod systemau amddiffyn tân addas ar waith yn unol â deddfwriaeth[6] a threfniadau ar gyfer profi a gwasanaethu'r eitemau hyn i helpu i sicrhau diogelwch staff a chleifion mewn tân.

Gwnaethom sylwi nad oedd arwyddion Dim Ysmygu yn y practis. Mae hyn yn ofynnol gan Reoliadau Mangreoedd Di Fwg etc (Cymru).

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis arddangos arwydd Dim Ysmygu.***

Roedd mesurau diogelwch priodol ar waith er mwyn rhwystro mynediad heb awdurdod i'r adeilad. Gwelsom fod trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel. Fe'n hysbyswyd gan y staff bod copi wrth gefn o gofnodion electronig yn cael ei gadw'n feunyddiol ar weinydd oddi ar y safle. Mae hyn yn golygu bod y practis wedi cymryd mesurau i sicrhau diogelwch a gwarchodaeth cleifion a'u gwybodaeth. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod y cwpwrdd lle'r oedd hanes meddygol cleifion yn cael eu cadw yn cael ei gloi pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio, fel ffordd ychwanegol o amddiffyn dioglewch gwybodaeth cleifion.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r practis sicrhau diogelwch holl wybodaeth cleifion, gan gynnwys hanesion meddygol ar bapur.***

---

[6]Mae Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn darparu deddfwriaeth mewn perthynas â diogelwch tân mewn adeiladau annomestig.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae’r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran yr argymhellion yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Deintyddfa Llangefni'n mynd i’r afael â’r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC a chaiff ei werthuso yn rhan o’r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Hayden

## Dyddiad yr Arolygiad: 17 Chwefror 2015

| Rhif y Dudalen | Y Gwelliant sydd ei Angen | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| 7/8 | Dylai'r practis ystyried rhoi mwy o wybodaeth hyrwyddo iechyd i gleifion, gan gynnwys rhoi'r gorau i ysmygu ac ymwybyddiaeth o/rhwystro canser y geg.<br><br>[Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, adran 3c] | Roedd ymgyrch ymwybyddiaeth o siwgr a gafodd ei rhannu ar dudalen Facebook Practis Deintyddol Hayden yn ddiweddar hefyd wedi cael ei lamineiddio a'i harddangos yn y dderbynfa. Bydd gwybodaeth hyrwyddo iechyd yn cael ei diweddaru'n rheolaidd a bydd pynciau perthnasol yn cael eu cynnwys. | Katie Hayden | Ar unwaith |
| 8 | Dylai'r practis ddatblygu dull cadarn ar gyfer ceisio barn ac adborth gan gleifion er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. | Bydd holiaduron adborth cleifion yn cael eu cynnal, eu hadolygu a'u cynnwys yn ein cynlluniau'n rheolaidd er mwyn gwelliant parhaus. | Katie Hayden | Ar unwaith |

| Rhif y Dudalen | Y Gwelliant sydd ei Angen | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | [Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, adran 5a-c] | | | |
| | **Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru** | | | |
| 9 | Dylai'r practis sicrhau bod cyn lleied â phosib o annibendod yn cael ei gadw ar arwynebau ardaloedd triniaeth er mwyn helpu dadheintio effeithiol.<br>[Canllawiau WHTM 01-05, 5.3 a 6.39]<br>Dylai'r practis sicrhau bod meysydd storio, yn arbennig y tu mewn i ddreir/cypyrddau mewn ystafelloedd triniaeth, yn cael eu glanhau'n rheolaidd.<br>[Canllawiau WHTM 01-05, adran 6.64] | Bydd arwynebau mewn ardaloedd triniaeth yn cael eu hadolygu a bydd cyfrifoldeb dros lanhau ardaloedd storio yn cael eu ffurfioli a'u pwysleisio i staff. | Katie/James Hayden | Cyfarfod Staff Nesaf (Mawrth 2015) |
| 10 | Dylai'r practis sicrhau bod dyfeisiadau cludadwy'n cael eu profi'n rheolaidd.<br>[Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989 Rhan II Adran 4(2)] | Profion dyfeisiadau cludadwy i gael eu trefnu mis Mawrth 2015 | Katie Hayden | Mawrth 2015 |
| 11 | Dylai'r amgylchedd lle mae dadheintio'n digwydd gael ei adolygu'n gyson i leihau'r posibilrwydd bod aerosolau a gynhyrchir o'r broses glanhau yn gallu cyrraedd cleifion | Cynhelir adolygiad parhaus o'r ystafell ddadheintio bob dydd  Bydd staff yn cael eu hatgoffa i gau'r drws i'r ystafell ddadheintio pan fydd aerosolau'n cael eu cynhyrchu. | James Hayden | Mawrth 2015 |

| Rhif y Dudalen | Y Gwelliant sydd ei Angen | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | neu staff heb eu hamddiffyn.<br>[Canllawiau WHTM 01-05, adran 1.9] | | | |
| 11 | Dylai'r practis sicrhau y gellir glanhau'r arwynebau yn yr ystafell ddadheintio yn hawdd ac yn effeithiol.<br>[Canllawiau WHTM 01-05 adran 5.3 a 6.46] | Bydd eitemau sy'n cael eu storio yn yr ystafell ddadheintio'n cael eu casglu a'u cadw mewn blychau yn drefnus er mwyn ei gwneud yn haws i lanhau. | James Hayden | Mawrth 2015 |
| 11 | Dylai'r practis ystyried cofnodi'r archwiliadau ar ddechrau a diwedd pob dydd a gwblheir gan y staff nyrsio i sicrhau bod yr archwiliadau wedi eu cwblhau. | Adolygiad o swyddogaethau a chyfrifoldebau staff i'w trefnu ar gyfer mis Mawrth 15 ac i gael eu hail drefnu yn ystod cyfarfod staff mis Mawrth. | James/Katie Hayden | Mawrth 2015 |
| 12 | Dylai'r practis ddatblygu cynllun gwella i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a amlygir yn yr archwiliad rheoli heintiau.<br>[Canllawiau WHTM 01-05, adran 1.8] | Mae cynllun gwella ar waith ar gyfer ailwampio'r adeilad yn llawn, gan gynnwys ehangu'r practis ac adeiladu ystafell ddadheintio bwrpasol newydd. | James/Katie Hayden | Hydref 2015 |
| 12 | Dylai'r practis sicrhau bod modelau deintyddol yn cael eu gwaredu mewn cynhwysydd gypswm priodol.<br>[Canllawiau WHTM 07-01: practisau deintyddol - adran 21] | Cynhwysydd gypswm i gael ei ychwanegu at gontract Cannon Hygiene | Katie Hayden | Mawrth 2015 |
| 12 | Dylai'r practis sicrhau bod gwastraff yn cael ei wahanu a'i waredu'n briodol, gan gynnwys gwastraff ffiaidd/glanwaith o'r toiled. | Dull gwaredu cywir i gael ei ail wirio gyda Cannon Hygiene a'i roi ar waith yn syth | Katie Hayden | Mawrth 2015 |

| Rhif y Dudalen | Y Gwelliant sydd ei Angen | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | [Canllawiau WHTM 07-01, adran 5.48] | | | |
| 14 | Dylid gwneud gwelliannau i'r broses o gadw cofnodion cleifion, yn enwedig o ran hanes cymdeithasol, sgrinio ar gyfer canser y geg a nodiadau yn ymwneud â radiograffau.<br>[Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru adran 7a-c,8a,20c a Safonau Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.1.1] | Mae adolygiad eisoes wedi ei wneud o'r sgriniau cadw cofnodion a ddefnyddir gan y ddau ddeintydd ac mae sgrin gwirio newydd wedi ei roi ar waith. | James Hayden | Cwblhawyd |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| 16 | Dylid cynnal arfarniadau blynyddol i bob aelod o staff sy'n gweithio yn y practis a dylai cofnodion fod ar gael fel rhan o ddatblygiad personol staff.<br>[Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, adran 26c] | Arfarniadau blynyddol i gael eu cynnal yn y gwanwyn 2015 | Katie Hayden | Mawrth/Ebrill 2015 |
| 16 | Dylai'r practis sicrhau bod cofnodion damweiniau cyflawn yn cael eu symud a'u storio'n ddiogel i warchod cyfrinachedd gwybodaeth staff a chleifion.<br>[Deddf Diogelu Data 1998] | Llyfr damweiniau i gael ei ffeilio, a staff i gael eu hysbysu o'r broses newydd yng nghyfarfod staff mis Mawrth | Katie Hayden | Mawrth 2015 |

| Rhif y Dudalen | Y Gwelliant sydd ei Angen | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| 17 | Dylid diweddaru'r polisi gyda manylion cyswllt AGIC i gleifion preifat a dylai gynnwys cyfeiriad at yr ombwdsmon cywir - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gleifion y GIG.<br>[Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Diwygio) 2011 adran 15 – 4a; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol adran 5.1.3] | Diweddariadau wedi eu cwblhau | Katie Hayden | Chwefror 2015 |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| 19 | Rhaid i'r practis ddangos cyfarwyddiadau ar gyfer y weithdrefn i'w dilyn pe bai tân.<br>[Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 adran 15(1)(a)] | Arwydd i gael ei osod | Katie Hayden | Mawrth 2015 |
| 19 | Rhaid i'r practis ddangos arwydd Dim Ysmygu.<br>[Rheoliadau Mangreoedd etc Di-Fwg (Cymru) 2007 adran 5(1)] | Arwydd i gael ei osod | Katie Hayden | Mawrth 2015 |
| 19 | Dylai'r practis sicrhau diogelwch holl wybodaeth cleifion, gan gynnwys hanes meddygol ar bapur.<br>[Deddf Diogelu Data 1998; Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer | Cypyrddau i gael eu cloi ar ddiwedd y dydd. | Katie Hayden | Ar unwaith |

| Rhif y Dudalen | Y Gwelliant sydd ei Angen | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Gwasanaethau Iechyd Cymru, adran 9c] | | | |

## Cynrychiolydd y Practis:

**Enw (wedi'i brintio):** **Katie Hayden**

**Teitl:** **Rheolwr y Practis**

**Dyddiad:** **18/03/2015**